

# CWIS GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU 2 (gydag atebion)

1. Beth yw CAWL AWST?

Ateb: Math o bicnic a gynhelid gan fugeiliaid Ceredigion.

2. Pa mor hen yw'r gair HAF? (Awgrym: Edrychwch ar ddyddiadau'r dyfyniadau. Gallwch guddio neu ddangos y dyfyniadau drwy glicio ar '-' neu '+' ar ymyl de y sgrin.)

Ateb: Mae'n dyddio o'r nawfed ganrif.

3. Pam mae angen i feirdd fod yn ofalus wrth gymharu merch â GWYLAN?

Ateb: Gan fod GWYLAN yn gallu cyfeirio, yn ffigurol, naill ai at ferch brydferth neu at ddyn glwth.

4. Beth oedd ystyr gynharaf y gair DYSGWR?

Ateb: 'Un sy'n dysgu arall, athro, hyfforddwr.'

5. Beth yw ystyr FFLAMENCO ym Mhatagonia? (Awgrym: Edrychwch ar ffynonellau'r dyfyniadau. Gallwch estyn y byrfodd drwy hofran drosto gyda'r llygoden neu dapio arno yn yr ap.)

Ateb: 'Fflamingo', yn ôl llyfr Fred Green, *Pethau Patagonia*.

6. Pryd cafwyd y cyfeiriad cynharaf at GYFIEITHU?

Ateb: 1346

7. O ba iaith y mae YSGRIFEN yn tarddu? (Awgrym: Gallwch estyn y byrfoddau o dan y dangosair drwy hofran drostynt gyda'r llygoden neu eu tapio yn yr ap.)

Ateb: Lladin

8. Faint o wahanol ystyron sydd i AP? (Awgrym: Mae GPC yn defnyddio rhifau bach 'superscript', i wahaniaethu rhwng gwahanol eiriau a sillefir yr un fath â'i gilydd ('homograffau').)

Ateb: tair, sef:

- 'mab' ( $ap^1$  neu  $ab$ )
- 'epa, mwnci', ( $ap^2$  neu  $âb^1$ )
- 'rhaglen gyfrifiadurol a ddefnyddir yn bennaf ar ffonau symudol a chyfrifiaduron tabled' ( $ap^3$ ).

9. Mae croesair ('crossword') yn rhoi'r llythrennau hyn:

C			R			I		D		R
---	--	--	---	--	--	---	--	---	--	---

Allwch chi ddefnyddio'r geiriadur i ddod o hyd i'r gair? (Awgrym: Wrth chwilio yn y geiriadur mae '?' yn cynrychioli unrhyw lythyren.)

Ateb: CYFRIFIADUR

10. Beth yw'r cysylltiad rhwng y gair GWERS a barddoniaeth?

Ateb: Mae GWERS yn gallu golygu 'pennill o farddoniaeth' (mae'n tarddu o'r gair Lladin *versus*).